
CWMNI BENTHYCIADAU MYFYRWYR CYFYNGEDIG

Cynllun Iaith Gymraeg

<Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg dan Adran 14 y Ddeddf.
Daeth i rym ar 17th Mawrth 2009.>

1. Cyflwyniad

Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Saesneg a'r Gymraeg yn gyfartal wrth iddo ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ag y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a bennir gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni gwaith cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn delio â'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu grŵp o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys elusennau a mudiadau gwirfoddol. Yn ogystal, cynhwysir cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys personau sy'n gweithredu gan gynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. Nid yw'n cynnwys pobl yn y sectorau addysg uwch neu addysg bellach yn gyffredinol ychwaith – hynny yw, pobl y mae gennym berthnasod busnes â nhw yn y bôn, megis staff awdurdodau lleol neu weinyddwyr mewn prifysgolion, ysgolion a cholegau. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn cael eu cynnwys o fewn ystyr y gair *cyhoedd* pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny; ein partneriaid busnes ydynt yn hytrach na'n cwsmeriaid.

Gellir gweld gwybodaeth bellach ynghylch cwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk).

2. Cefndir

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (yr SLC) yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol, sy'n gweinyddu'r cymorth a roddir i fyfyrwyr ar ran 4 adran addysg y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, cynhelir y swyddogaethau hyn yn bennaf ar ran yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr eithriad i hyn yw'r trefniadau Ad-dalu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog; y mae'r rhain yn cael eu cyflawni ar ran yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (AAPS) yn Llywodraeth y DU. Mae'r Cwmni wedi gwneud ymrwymiad i APADGOS i arddel egwyddorion y cynllun hwn mewn unrhyw ddatblygiadau i'r gwasanaeth a ariannir gan APADGOS.

- mae'n darparu'r cyfle i fyfyrwyr wneud cais, ar bapur neu ar y Rhyngwrdd, am gynhyrchion cyllid myfyrwyr ar gyfer eu cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch. Darperir y cynhyrchion hyn dan frand "Cyllid Myfyrwyr Cymru" ac fe'u darperir ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r cynhyrchion yn cynnwys benthyciadau a grantiau er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i dalu costau AU megis costau byw, ffioedd dysgu, llyfrau a deunyddiau a chostau eraill y gallai myfyrwyr addysg uwch eu hwynebu. Yn

ogystal, cynigir grantiau i fyfyrwyr addysg bellach, a Lwfansau Cynhaliath Addysg i fyfyrwyr chweched dosbarth a myfyrwyr sy'n dilyn astudiaethau tebyg;

- mae'n cynnal asesiadau ar gyfer cynhyrchion cymorth addysg bellach ac yn darparu'r system a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol (ALLau) i asesu dyfarniadau cymorth addysg uwch. Mae'n cyfleu canlyniadau'r holl asesiadau hyn i fyfyrwyr, ac yn darparu gohebiaeth gyda myfyrwyr ar ran ALLau;
- mae'n darparu gwefan, canolfan gyswllt ("Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru" neu CGCMC) a rhywfaint o ddogfennaeth gwybodaeth gyhoeddus Cyllid Myfyrwyr Cymru; ac
- mae'n casglu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ac yn cynnig gwasanaeth cwsmeriaid i bobl sy'n ad-dalu benthyciadau, ar ddwy sail statudol wahanol.

Mae gan yr SLC swyddfeydd yn Glasgow, Bae Colwyn a Darlington. Er mwyn darparu gwasanaethau cwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg, rydym wedi sefydlu CGCMC ym Mae Colwyn ac mae'r gwasanaeth hwn i ddarparu gwasanaethau ffôn dwyieithog wedi bod mewn grym ers gwanwyn 2006, gan gyflogi oddeutu 30 o bobl. Bydd CGCMC yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r cyhoedd yng Nghymru¹.

3. Cynllunio Gwasanaeth a'i Ddarparu

Polisïau, deddfwriaeth a mentrau

Bydd ein polisïau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn cyd-fynd â'r cynllun hwn. Byddant yn cynorthwyo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ac yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu bywydau o ddydd i ddydd pryd bynnag y bo modd.

Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygiad neu ddarpariaeth polisïau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd a arweinir gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r cynllun hwn.

Darparu gwasanaethau

Ein harfer arferol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, bydd ein cwsmeriaid yn gallu dewis manteisio ar wasanaethau Cyllid Myfyrwyr Cymru yn y naill iaith neu'r llall wrth bob pwynt cyswllt, ac i newid rhwng eu defnydd o'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fo hynny'n gyfleus iddynt.

Yn y cynllun, rydym yn disgrifio tri gwahanol gategori o ran gwasanaeth, ac mae'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer pob un trwy gyfrwng y Gymraeg yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir iddynt o safbwynt ieithyddol, yr ydym wedi cytuno arnynt gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Maent fel a ganlyn:

¹ Mae myfyrwyr yn gymwys i fanteisio ar gynhyrchion Cyllid Myfyrwyr Cymru os oeddent yn byw yng Nghymru fel arfer cyn iddynt fynychu prifysgol neu goleg. Yn aml, bydd myfyrwyr yn teithio i rannau eraill o'r DU i astudio ac yn wir, efallai y bydd yn rhaid iddynt wneud hynny er mwyn dilyn cyrsiau mewn pynciau penodol. Bydd myfyrwyr o Gymru sy'n gadael Cymru i astudio yn cael yr un gwasanaeth â'r rhai nad ydynt yn gadael Cymru i astudio.

-
- *Cyllid Myfyrwyr Cymru*: gwneud cais, asesu a thalu grantiau, benthyciadau a bwrsariaethau i fyfyrwyr mewn prifysgol, coleg neu ysgol, neu fyfyrwyr y maent yn bwriadu mynychu prifysgol, coleg neu ysgol, ynghyd â'r cyngor a'r wybodaeth y byddwn yn ei rhoi iddynt a'r cymorth y byddwn yn ei ddarparu wrth ddelio â'u hymholiadau; dyma'r maes y rhoddir y flaenoriaeth fwyaf iddo o ran darparu gwasanaeth dwyieithog.
 - *Ad-dalu Amodol ar Incwm*: casglu ad-daliadau Benthyciadau Amodol ar Incwm (cynllun benthyciadau i fyfyrwyr a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ym 1999) a darparu gwasanaethau cwsmeriaid a gwybodaeth i bobl sy'n ad-dalu'r benthyciadau hyn, trwy gyfrwng system dreth y DU yn y rhan fwyaf o achosion; dyma'r maes y rhoddir y flaenoriaeth nesaf iddo o ran darparu gwasanaeth dwyieithog.
 - *Ad-daliadau Cyfradd Sefydlog*: casglu ad-daliadau a rhoi'r hawl i gwsmeriaid y mae ganddynt Fenthyciadau Cyfradd Sefydlog (cynllun benthyciadau i fyfyrwyr a oedd yn cael ei weithredu cyn y cyflwynwyd Benthyciadau Amodol ar Incwm ac y mae ad-daliadau ar eu cyfer yn cael eu casglu o hyd, trwy gyfrwng debydau uniongyrchol yn y rhan fwyaf o achosion; ac y gall benthycwyr wneud cais i ohirio'r ymrwymiad i ad-dalu am resymau sy'n ymwneud ag incwm) i ohirio ad-daliadau; hwn yw'r maes y rhoddir y flaenoriaeth isaf iddo o ran darparu gwasanaeth dwyieithog.

O fewn Cyllid Myfyrwyr Cymru, mae ein gwaith ymchwil a'n cyngor yn dweud wrthym mai blaenoriaeth bennaf myfyrwyr a'u teuluoedd yw'r cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn siarad gyda ni dros y ffôn, yn yr un modd â phan fyddant yn siarad gydag ALI. Felly, rydym wedi sefydlu'r Swyddfa Cymorth i Gwsmeriaid ym Mae Colwyn, sy'n cynnwys staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac y maent yn meddu ar wybodaeth arbenigol ynghylch cyllid myfyrwyr yng Nghymru. Am y tro cyntaf, bydd hon yn sicrhau bod cynghorwyr ar gael sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol ynghylch y cyllid myfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr unrhyw le yng Nghymru, gan nad yw hyn wedi bod yn ymrwymiad a wnaethpwyd gan bob ALI yng Nghymru hyd yn hyn. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fo gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Gwasanaethau a Ddarperir gan Drydydd Partïon

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau y byddwn yn eu gwneud gyda thrydydd partïon yn cyd-fynd â rhannau perthnasol y cynllun hwn, pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio, rhoi trwyddedau a rhoi mathau eraill o ganiatâd. Bydd ALIau yn parhau i weithredu dan Gynlluniau Iaith Gymraeg eu Cynghorau eu hunain, ond byddant yn cael cymorth wrth iddynt wneud hynny gan ohebiaeth a gweithgarwch cynhyrchu ffurflenni'r SLC a chyfleusterau CGCMC.

4. Safonau Ansawdd

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r un ansawdd ac fe'u darperir yn unol â'r un amserlen. Yn unol â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer pob maes gwasanaeth, bydd y dull gweithredu fel a ganlyn:

- Ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Cymru, darperir gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg fel arfer. Bydd y testun Cymraeg a Saesneg ar y ffurflenni yn ymddangos ochr yn ochr neu gefn wrth gefn er mwyn sicrhau bod y cwsmer yn gallu dewis pa iaith i'w defnyddio yn hawdd. Rydym yn cynnal systemau telefoni sy'n galluogi'r rhai sy'n galw i ddewis iaith, er mwyn i ni alluogi'r cwsmer i fanteisio ar y gwasanaeth yn y naill iaith neu'r llall

yn ôl yr angen, a gweld yr un deunydd yn y ddwy iaith ar unwaith pan fo hynny'n ddefnyddiol ac yn ymarferol.

- Ar gyfer Ad-dalu Amodol ar Incwm, bydd Cyllid a Thollau EM (CATHM) yn gyfrifol am y ddogfennaeth a'r gwasanaeth a ddarperir ganddo, ac mewn nifer o achosion, bydd y broses o ddelio â benthyciadau myfyrwyr yn cael ei chynnwys mewn dogfennau a llythyrau sy'n delio â meysydd eraill o ran treth hefyd. Mae'r SLC yn gyfrifol am wasanaeth a chyfathrebu sy'n ymwneud â chyingor penodol ynghylch cyfrif benthyciad myfyriwr unigol (balans, ad-daliadau sy'n ofynnol, ad-daliadau gwirfoddol sy'n uwch na'r isafswm statudol, dileu mewn amgylchiadau penodol yn unol â'r gyfraith, ac ati). Nid yw datganiadau blynyddol cwsmeriaid a mathau eraill o ohebiaeth sy'n cael eu paratoi yn awtomatig ac yn unswydd, ar gael yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Yn ogystal, nid yw porthol ad-dalu a fydd yn cael ei lansio yn ystod yr haf 2008 yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Rhoddir sylw i hyn pan fydd arian ar gael i wneud y newidiadau technegol angenrheidiol.
- Ar gyfer Benthyciadau Cyfradd Sefydlog, darperir dogfennaeth a gwasanaeth ynghylch ad-daliadau gan yr SLC ac nid yw wedi cael ei ddarparu yn Gymraeg fel mater o drefn hyd yn hyn. Nid yw'r gwasanaeth hwn wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n parhau i gael ei ddarparu dan nawdd AAPS yn San Steffan. Nid yw'r benthyciadau hyn yn cael eu cynnig mwyach, ac mae nifer y cwsmeriaid yn gostwng yn gyflym, felly mae'r manteision o fuddsoddi yn y maes hwn yn gyfyngedig iawn. Bydd yn cael ei ddarparu o hyd yn unol â'r polisi iaith Gymraeg a ddarparwyd gan gynllun AAPS hyd yn hyn.

5. Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Gohebiaeth

Bydd ein harfer arferol, sy'n berthnasol i ohebiaeth trwy gyfrwng negeseuon e-bost ac SMS (Testun), yn ogystal â gohebiaeth ar bapur, fel a ganlyn:

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os bydd angen ymateb). Bydd ein cyfnodau ymateb safonol yr un fath â'r cyfnodau ymateb ar gyfer llythyrau Saesneg.

Pan fyddwn yn cychwyn gohebiaeth gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig a bod rheswm da dros wneud hyn, er enghraifft, pan fo'r llythyr o natur sensitif. Ein arfer safonol bydd i ddarparu'r holl ohebiaeth i gwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchol, nad yw'n ymwneud â chyfrifon penodol (megis datganiadau blynyddol), at nifer o dderbynwyr yng Nghymru ar yr un pryd, bydd yr ohebiaeth hon yn ddwyieithog fel arfer.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o unrhyw ohebiaeth, ein harfer arferol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Bydd unrhyw amgaeadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog, yn ddwyieithog. Fel arfer, bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn ddwyieithog. Llofnodir yr holl ohebiaeth Gymraeg a ddosbarthir ar ffurf copi caled, ar yr un sail â'r ddogfen Saesneg gyfatebol (efallai y bydd dogfennau safonol yr argraffir nifer fawr ohonynt yn cynnwys llofnodion a ddyblygwyd neu a ddelweddyd).

Llythyrau penderfyniad

Os mai bwriad llythyr penderfyniad yw cyfleu polisi i gynulleidfa sy'n llawer ehangach na'r rhai a fu'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymholiad neu drefn statudol arall, byddwn yn ystyried a ddylid ei drin fel cyhoeddiad dan y cynllun hwn.

Gall yr SLC gyhoeddi pedwar prif fath o lythyr penderfyniad sy'n ymwneud â Chyllid Myfyrwyr Cymru:

- llythyr sy'n hysbysu myfyriwr ynghylch dyfarniad benthyciadau, grantiau a/neu fwsariaethau;
- llythyr sy'n hysbysu ymgeisydd y canfuwyd nad ydynt yn gymwys i gael cyllid myfyrwyr; a
- llythyr sy'n hysbysu ymgeisydd ei bod yn ymddangos nad ydynt yn gymwys, ond os gellir dangos ffeithiau penodol, efallai yr ailystyriir y penderfyniad hwn; a
- llythyr sy'n hysbysu myfyriwr y dyfarnwyd benthyciadau, grantiau a/neu fwsariaethau iddynt, faint o arian y byddant yn ei gael ar ba ddyddiadau. Nid oes fersiwn Cymraeg ar gael o hwn ar hyn o bryd, ond bwriadwn gyflwyno fersiwn dwyieithog i ddisodli'r llythyr presennol yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Er y gall yr SLC fod yn gyfrifol am wneud penderfyniad ynghylch cymhwysra neu ddyfarnu, neu efallai na fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniad ynghylch cymhwysra neu ddyfarnu (gallai gael ei wneud gan ALI neu sefydliad addysgol sy'n defnyddio systemau a phrosesau'r SLC), mae'r SLC yn gyfrifol am gyfleu pob penderfyniad yn gyffredinol, waeth pwy sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad. Yn ogystal â'r eitemau gohebiaeth safonol uchod, gellir dosbarthu llythyrau pwrpasol ynghylch penderfyniadau os, er enghraifft, y bydd amgylchiadau yn codi pan na fydd systemau'r SLC yn delio â nhw yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath, bydd staff CGCMC yn cyfieithu llythyrau, ac anfonir y fersiynau Saesneg a Chymraeg gyda'i gilydd. Efallai yr anfonir fersiynau mewn un iaith yn unig o lythyrau sensitif iawn, yn unol â dewis y cwsmer.

Dim ond cynnwys llythyrau a gynhyrchir yn awtomatig gan ei systemau y gall yr SLC eu rheoli, neu'r rhai y mae ganddo gyfrifoldeb ffurfiol dros eu cynnwys. Pan fydd sefydliadau eraill yn ysgrifennu at fyfyrwyr dan frand Cyllid Myfyrwyr Cymru ond gan ddefnyddio eu testun eu hunain, yr awdur sy'n gyfrifol am gynnwys y llythyrau hyn a'r Cynllun Iaith Gymraeg y cânt eu paratoi oddi tano. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd pan fydd awdurdodau lleol yn ysgrifennu at fyfyrwyr ynghylch eu ceisiadau am gyllid myfyrwyr, ac ynghylch yr asesiadau dilynol, gan ddefnyddio llythyrau a ddrafftiiwyd yn arbennig yn hytrach na llythyrau sy'n deillio o dempledi wedi'u storio yn ein systemau, oherwydd eu bod yn ymwneud ag amgylchiadau arbennig mewn achos nad oes modd delio â nhw yn hawdd fel arall; neu pan fyddant yn delio â myfyrwyr wyneb yn wyneb neu dros y ffôn (unwaith eto, ar gyfer cyfathrebu ynghylch manylion penodol achos arbennig fel arfer). Yn ogystal, efallai y byddan nhw a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'r brand pan fyddant yn paratoi eu deunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth eu hunain, ac efallai y bydd prifysgolion, colegau ac ysgolion yn dangos y brand mewn gwybodaeth y byddant yn ei darparu i fyfyrwyr.

Ad-dalu Amodol ar Incwm

Gall benthyciwr wneud cais i ymrwymiad benthyciad gael ei ddileu yn unol â'r ddarpariaeth statudol i bobl sy'n dioddef salwch ac anabledd yn y tymor hir, a bydd penderfyniadau a wneir

ynghylch y rhain yn cael eu cyfleu yn yr iaith y gwnaethpwyd y cais ynddi. Byddwn yn ystyried darparu fersiwn dwyieithog o'r ohebiaeth hon yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Ad-daliadau Cyfradd Sefydlog

Gall benthyciwr wneud cais i ohirio'r ymrwymiad i ad-dalu yn unol â'r ddarpariaeth statudol i bobl y mae eu hincwm yn is na lefel benodedig, a bydd penderfyniadau a wneir ynghylch y rhain yn cael eu cyfleu yn yr iaith y gwnaethpwyd y cais ynddi.

Gall benthyciwr wneud cais i ymrwymiad i ad-dalu benthyciad gael ei ddileu yn unol â'r ddarpariaeth statudol i bobl sy'n dioddef salwch ac anabledd yn y tymor hir, a bydd penderfyniadau a wneir ynghylch y rhain yn cael eu cyfleu yn yr iaith y gwnaethpwyd y cais ynddi.

Cyfathrebu dros y ffôn

Cyllid Myfyrwyr Cymru

Ein harfer arferol yw sicrhau bod y cyhoedd yn gallu siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn. Estynnir gwahoddiad i gwsmeriaid yng Nghymru sy'n troi at Gyllid Myfyrwyr Cymru i gysylltu â CGCMC ym Mae Colwyn er mwyn manteisio ar y gwasanaeth yn y naill iaith neu'r llall. Bydd y rhai sy'n ffonio yn deialu'r un rhif, beth bynnag fo'u dewis iaith.

Bydd staff CGCMC yn ateb yr alwad yn unol â'r iaith a ddewiswyd yn yr IVR. Bydd yr unigolyn yn gyfrifol am ddewis a fydd eu negeseuon peiriant ateb personol yn ddwyieithog neu beidio. Bydd y system awtomataidd ar gyfer ymateb dros y ffôn yn cynnig y dewis i'r rhai sy'n galw o Gymru, a ydynt yn dymuno cynnal eu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd y gwasanaeth awtomataidd hwn ar gael i gwsmeriaid y mae eu ffôn yn gysylltiedig â ffôn digidol. Bydd ein system bob amser yn ceisio cysylltu galwad i rywun sy'n siarad Saesneg neu Gymraeg yn unol â dewis y sawl sy'n galw.

Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael sy'n gallu delio â'r ymholiad, cynigir dewis i'r sawl sy'n galw, pan fo hynny'n briodol, o gael rhywun sy'n siarad Cymraeg yn eu ffonio cyn gynted ag y bo modd, parhau gyda'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno'r ymholiad sydd ganddynt yn Gymraeg mewn llythyr neu neges e-bost.

Ad-dalu Amodol ar Incwm

Mae ein canolfan gyswllt yn Glasgow yn gyfrifol am ddelio â galwadau ar gyfer y maes gwasanaeth hwn. Os bydd unrhyw un yn ffonio'r ganolfan gyswllt hon neu un o'n llinellau uniongyrchol ac os byddant yn dymuno siarad Cymraeg, ac os na fydd y person sydd wedi ateb yr alwad yn gallu gwneud hynny, bydd ef neu hi yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg er mwyn iddynt ddelio â'r ymholiad.

Os na fydd unigolyn cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael i ddelio â'r ymholiad, neu os na fydd y system gyfrifiadurol neu'r wybodaeth angenrheidiol ar gael i asiant CGCMC, cynigir dewis i'r sawl sy'n galw o gael rhywun sy'n siarad Cymraeg i'w ffonio cyn gynted ag y bo modd, parhau gyda'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno'r ymholiad yn Gymraeg mewn llythyr neu neges e-bost.

Byddwn yn ystyried gwella'r trefniadau ar gyfer Ad-dalu Amodol ar Incwm yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

Ad-daliadau Cyfradd Sefydlog

Mae hwn yn gweithredu yn yr un modd ag y mae'r trefniadau ar gyfer Ad-daliadau Amodol ar Incwm yn gweithredu.

Cyfarfodydd cyhoeddus

Byddwn yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ystod ein cyfarfodydd cyhoeddus, oni bai ein bod wedi darganfod bod yr holl gyfranogwyr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd y gwahoddiadau a'r hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn rhai dwyieithog, gan nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael, neu gan wahodd y cyhoedd i'n hysbysu ymlaen llaw ym mha iaith y byddant yn dymuno siarad.

Byddwn yn hysbysu'r rhai sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael – gan annog cyfraniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ein harfer arferol fydd darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg – ac i gyhoeddi adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus, ein harfer arferol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwysedig addas yn mynychu, yn ôl yr angen, er na fydd arbenigwyr pwnc sy'n gweithio yn Glasgow yn siaradwyr Cymraeg fel arfer.

Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd, byddwn yn darganfod eu dewis iaith cyn gynted ag y bo modd a byddwn yn sicrhau bod aelod o staff cymwysedig addas ac sy'n gallu siarad Cymraeg, yn delio â'r rheiny a ddewisodd y Gymraeg fel eu dewis iaith pryd bynnag y bo modd.

Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwysedig addas ar gael, byddwn yn cynnig y dewis i barhau gyda'r cyfarfod yn Saesneg, neu i ddelio â'r pwnc trwy gyfrwng gohebiaeth Gymraeg.

Bydd yr uchod yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir gan ddefnyddio technoleg fideo-gynadleda neu offer tebyg hefyd.

Cyswilt arall gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn cynnal arolygon sy'n cynnwys y cyhoedd yng Nghymru, ein harfer arferol fydd sicrhau bod pob agwedd ar y cyfathrebu gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, gofynnir i'r ymatebwyr nodi a ydynt yn dymuno ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd hyn yr un mor berthnasol ar gyfer arolygon a gynhelir dros y Rhynggrwyd os byddant yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru.

Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Pan na chânt eu darparu yn Gymraeg, byddwn er hyn yn ystyried cynnig y cyfleuster i gyfranogwyr sy'n siarad yn ystod digwyddiadau o'r fath, i siarad yn Gymraeg.

Ein harfer arferol fydd sicrhau bod cyhoeddiadau a wneir trwy gyfrwng systemau sain yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol y byddwn yn eu paratoi, yn ddwyieithog.

6. Ein Hwyneb Cyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, deunydd arddangos a hysbysebu y byddwn yn ei ddefnyddio yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog fel arfer, a phan fydd hynny yn anymarferol, cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yr un fath o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd, a bydd modd troi at y ddau ohonynt yn yr un modd.

Bydd unrhyw hysbysebion a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) ac a ddosbarthir yng Nghymru yn unig neu yn bennaf, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, a bydd y ddau fersiwn yr un fath o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Mewn cyhoeddiadau Cymraeg, dim ond hysbysebion Cymraeg a gyhoeddir.

Bydd deunydd hysbysebu ar y teledu, mewn sinemâu ac ar orsafoedd radio yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu a fydd yn ymddangos ar S4C yn ystod oriau darlledu rhaglenni Cymraeg yn ymddangos yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn ymddangos yn Gymraeg.

Ein harfer arferol fydd osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg, neu drosleisio hysbysebion i'r Gymraeg.

Bydd llinellau ffôn y dylid ymateb iddynt a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru, yn ddwyieithog neu byddant yn cynnwys gwasanaeth ymateb ar wahân yn Gymraeg.

Wrth staffio arddangosfeydd a stondinau arddangos, ein harfer arferol fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwysedig addas yn mynychu, yn ôl yr angen, er na fydd arbenigwyr pwnc sy'n gweithio yn Glasgow yn siaradwyr Cymraeg fel arfer.

Cyhoeddiadau

Ein harfer arferol fydd cyhoeddi deunydd a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pan fyddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy fawr), bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd – a'n harfer arferol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd troi at y ddau ohonynt. Bydd yr SLC yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael eu hysbysu o'r ffaith bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, i'w chytuno gyda'r Bwrdd, er mwyn pennu mewn ffordd wrthrychol pan ddylid cyhoeddi deunydd ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu ar ffurf dogfennau dwyieithog.

Os na fydd ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd dogfen ddwyieithog yn ddrytach na chyhoeddiad ohoni mewn un iaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.

Bydd yr uchod yn berthnasol hefyd i ddeunydd sydd ar gael ar ffurf electronig ar ein gwefan, ar CD-Rom neu fel arall.

Byddwn yn paratoi rhaglen, y bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cytuno arni, a fydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod mwy o gyhoeddiadau dwyieithog ar gael gydag amser.

Gwefannau

Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ein harfer arferol fydd darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau. Bydd cwsmeriaid Cyllid Myfyrrwyr Cymru yn gallu manteisio ar brosesau ymgeisio, offerynnau rhagweld cymorth ac unrhyw ddeunydd rhyngweithiol arall y byddwn yn ei ddarparu yn y ddwy iaith, a byddant yn gallu newid iaith heb iddynt orfod ailgychwyn y broses.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ynghyd ag unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y Bwrdd ynghylch datblygu gwefannau.

Pryd bynnag y byddwn yn cynnwys cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefan, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu cynnwys ar yr un pryd os ydynt ar gael.

Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

Ein harfer arferol fydd sicrhau bod yr holl ffurflenni a'r deunydd esboniadol cysylltiedig a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg wedi'u cynnwys gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pan fyddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy fawr), bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd – a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd troi at y ddau ohonynt. Bydd yr SLC yn sicrhau bod ein cwsmeriaid, y maent yn gymwys i fanteisio ar y gwasanaethau Cymraeg a ddisgrifiwyd yn y cynllun hwn, yn cael eu hysbysu o'r ffaith bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, i'w chytuno gyda'r Bwrdd, er mwyn pennu mewn ffordd wrthrychol pan ddylid cyhoeddi ffurflenni ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu ar ffurf dogfennau dwyieithog.

Pan fyddwn *ni* yn nodi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd at ddibenion Cyllid Myfyrwyr Cymru, byddwn yn gwneud hynny yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, os byddwn yn nodi gwybodaeth a ddarparwyd gan gwsmeriaid yn flaenorol, ac a storiwyd yn ein cronfeydd data, bydd y wybodaeth honno yn ymddangos yn yr iaith a'r ffurf y'i casglwyd.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

Byddwn yn paratoi rhaglen, y bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cytuno arni, er mwyn sicrhau bod deunydd ar gael yn ddwyieithog lle y mae'n cael ei ddarparu mewn ieithoedd ar wahân ar hyn o bryd – er enghraifft, pan fydd rhywun sydd wedi cael dogfen Saesneg yn gorfod gofyn am fersiwn Cymraeg ohoni – neu pan geir gwahaniaethau o ran cwmpas rhwng fersiynau Saesneg a Chymraeg dogfen (mae'r sefyllfa hon wedi'i chyfyngu i sefyllfaoedd dros dro).

Delwedd gorfforaethol

Bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ei enw, ei fanylion cyswllt, ei logo, ei sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr holl ddeunydd sy'n dangos ei ddelwedd gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys deunydd ysgrifennu Cyllid Myfyrwyr Cymru a ddefnyddir mewn digwyddiadau cyhoeddus. Yn ystod y cynllun hwn, byddwn yn ystyried ymestyn y cyflwyniad hwn i gynnwys cwsmeriaid Ad-dalu Amodol ar Incwm, er mwyn sicrhau na fydd myfyrwyr addysg uwch presennol yn sylwi ar newid o ran ansawdd y ddelwedd gorfforaethol rhwng eu cyfnod astudio a'u cyfnod ad-dalu.

Mae'r SLC yn masnachu dan nifer o frandiau, gan wasanaethu gwahanol grwpiau cwsmeriaid a thiriogaethau yn y DU. Mae aelodau'r cyhoedd yng Nghymru yn debygol o ddod ar draws y brandiau canlynol:

- **Cyllid Myfyrwyr Cymru**, sef y brand a ddefnyddir er mwyn rhoi benthyciadau a grantiau newydd i fyfyrwyr o Gymru, ble bynnag y byddant yn astudio. Caiff y brand hwn ei hyrwyddo ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i defnyddir gan yr SLC, awdurdodau lleol yng Nghymru a chan Lywodraeth Cynulliad Cymru; yn ogystal, fe'i gwelir mewn sefydliadau addysgol (addysg bellach ac addysg uwch) sy'n cynnig cyrsiau y gellir hawlio cyllid myfyrwyr ar eu cyfer. Mae'r brand hwn yn frand hollol ddwyieithog.
- **Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr**, sef brand y Cwmni a weithredir ar draws y DU ac mewn gwledydd tramor ble bynnag y cesglir Benthyciadau Arddull Morgais gan fenthycwyr y rhoddwyd benthyciadau o'r fath iddynt. Yn ogystal, fe'i defnyddir i dalu benthyciadau myfyrwyr i fyfyrwyr o'r Alban. Caiff y brand hwn ei hyrwyddo gan yr SLC yn ei rinwedd ei hun yn unig ac mae'n ymwneud â chynhyrchion a phrosesau na ddatganolwyd eu polisi i Gymru eto yn unig. Nid yw'r brand hwn yn ddwyieithog.

Yn ogystal, efallai y bydd cwsmeriaid sy'n byw y tu allan i Gymru fel arfer yn cael cyllid myfyrwyr dan frandiau **Student Finance Direct** (myfyrwyr o Loegr ac o Aelod Wledydd yr UE / AEE ac eithrio'r DU) a **Student Finance Northern Ireland** (Gogledd Iwerddon) lle y cânt eu hariannu gan y gweinyddiaethau hynny. Mae'r brandiau hyn y tu allan i gwmpas Deddf yr

Iaith Gymraeg ac ni fydd angen i'w cwsmeriaid fanteisio ar ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, nid ydynt yn ddwyieithog ac ni chânt eu cynnwys yn y Cynllun hwn.

Arwyddion yng Nghymru

Ein harfer arferol fydd sicrhau bod ein holl arwyddion parhaol a'n harwyddion dros dro, sy'n cyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael ei drin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

Byddwn yn cadw at yr arfer hwn pryd bynnag y gosodir arwyddion am y tro cyntaf, neu pryd bynnag y byddwn yn disodli arwyddion.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwydd, gan gynnwys arwyddion electronig.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) ac a ddsbarthir yng Nghymru yn unig neu yn bennaf, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau Cymraeg yn ymddangos mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd – os ydynt wedi'u cynhyrchu fel un fersiwn dwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Yn y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yn Gymraeg, gan gynnwys disgrifiad byr yn Saesneg.

Gall hysbysiadau recriwtio a osodir mewn cyfnodolion Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) a ddsbarthir ar draws y DU fod yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn swydd lle y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac os felly, gall yr hysbysiad fod yn hollol ddwyieithog, neu yn Gymraeg gan gynnwys esboniad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a osodir rywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfryngau

Cyhoeddir datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg pan fo dyddiadau cau yn caniatáu hynny – neu yn unol â dewis iaith y cyhoeddiad neu'r sefydliad cyfryngau dan sylw. Pan fo modd, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

7. Gweithredu'r cynllun

Staffio

Sefydlwyd CGCMC ym Mae Colwyn gan fod angen iddi fanteisio ar niferoedd digonol o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n meddu ar y medrau priodol, er mwyn ei galluogi i ddarparu gwasanaeth lawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, ac eithrio rhai eithriadau ym maes cymorth

cyfleusterau a chymorth technegol, caiff y swyddi yn CGCMC eu diffinio ar y sail bod y gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol. Byddwn yn darparu cymorth i staff ddysgu Cymraeg pan fo hyn yn angenrheidiol ac yn briodol.

Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder trwy gyfrwng ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

Recriwtio

Wrth recriwtio staff ar gyfer CGCMC, byddwn yn cael ein tywys gan y wybodaeth a gesglir trwy ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir gan *Staffio* uchod. Nodir sgiliau Cymraeg mewn hysbysebion a chymhwysedd swyddi a rhoddir sylw iddynt yng nghynlluniau hyfforddiant a datblygiad personol aelodau unigol o staff. Ar gyfer swydd lle nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, anogir yr unigolyn a benodir i ddysgu Cymraeg.

Pan na fydd ymgeiswyr addas sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, byddwn yn gwneud trefniadau dros dro lle gellir darparu gwasanaeth Cymraeg (er enghraifft, drwy ddefnyddio staff sy'n gallu siarad Cymraeg o fan arall yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Rheolir ein proses recriwtio trwy gyfrwng system ganolog o'r enw iRecruitment ac o'r herwydd, mae'n system Saesneg yn unig.

Os bydd unrhyw swydd yn codi y tu allan i CGCMC, y bydd deiliad y swydd hon yn cael cyswllt helaeth a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn Gymraeg fod yn fedr dymunol neu hanfodol – a bydd hyn yn cael ei nodi mewn hysbysebion a manylion cymhwysedd swydd. Ar hyn o bryd, caiff swyddogaethau o'r fath eu lleoli yn CGCMC fel rheol gan mai dyma'r unig leoliad lle y mae gan yr SLC gyswllt gyda marchnad gref er mwyn recriwtio staff sy'n gallu siarad Cymraeg.

Tendro a chontractio

Wrth dendro am wasanaethau sy'n ymwneud â chyfathrebu gyda'r cyhoedd yng Nghymru (allanoli gwasanaeth delio â galwadau ffôn, er enghraifft), byddwn yn mynnu bod contractwyr yn darparu'r gwasanaeth yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y cynllun hwn. Mi fydd CGCMC yn monitro'r ddarpariaeth yma i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ymrwymïadau a wneir yn y cynllun yma.

Hyfforddiant iaith

Anogir staff CGCMC i ddysgu Cymraeg neu i wella'u Cymraeg – a byddwn yn cynorthwyo'r rhai sy'n dymuno gwneud hynny.

Byddwn yn talu am yr hyfforddiant hwn er mwyn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Byddwn yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Hyfforddiant galwedigaethol

Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg trwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg iddynt pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Rhoddir sylw i'r angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac i weithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Pryd bynnag y bo modd, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – ac i weithredu yn unol â'r cynllun hwn. Byddwn yn gwneud hyn yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd gennym yn y cynllun hwn, a byddwn yn chwilio am atebion sy'n cynorthwyo'r iaith Gymraeg pan fyddwn yn prynu pecynnau newydd ac yn dewis gwerthwyr.

Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog* y Bwrdd.

Gweithio mewn partneriaeth

Pan mai ni fydd yr arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth a arweinir gan sefydliad arall, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Mae'r uchod yn cyfeirio at bartneriaethau sy'n delio â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn unig.

Trefniadau mewnol

Mae'r mesurau yn y cynllun hwn wedi sicrhau **awdurdod**, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

Bydd gweithredu yn unol â'r cynllun yn fater **cydymffurfio**.

Bydd rheolwyr yn **gyfrifol** am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Byddwn yn penodi aelod uwch o staff i **gydlynu**'r gwaith sy'n angenrheidiol er mwyn darparu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Byddwn yn paratoi, ac yn parhau i ddiweddar, **cynllun gweithredu** manwl y cytunir arno gyda'r Bwrdd, gan nodi sut y byddwn yn sicrhau y byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Bydd y cynllun gweithredu yn dod i rym ar y dyddiad y bydd y cynllun yn dod i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, dyddiadau cau ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

Bydd y cynllun yn cael ei **gyhoeddi** i'n staff ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru mewn man amlwg.

Bydd cyfarwyddiadau desg sy'n bodoli eisoes neu arweiniad tebyg a ddefnyddir gan ein staff, yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau yn y cynllun hwn.

Byddwn yn trefnu sesiynau **briffio a hyfforddi** ar gyfer ein staff er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac er mwyn esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Byddwn yn sicrhau mai dim ond **cyfieithwyr** cymwys y byddwn yn eu defnyddio er mwyn cyfieithu deunydd ac i gyfieithu ar y pryd. Byddwn am i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.

Bydd **unrhyw fath o gyswilt** gyda'r cyhoedd yng Nghymru nad yw'n cael sylw penodol yn y cynllun hwn, yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion cyffredinol a ymgorfforwyd yn y cynllun hwn.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Byddwn yn gweithredu yn unol â chynghor y Bwrdd ynghylch *Deddf yr Iaith Gymraeg a Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol*.

Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei gyfieithu i ddewis iaith y sawl sy'n gofyn amdani, ar yr amod bod nifer y geiriau i'w cyfieithu yn llai na 100.

Monitro

Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd ag ef. Byddwn yn adrodd ar y cynnydd hwnnw i'n tîm rheoli uwch.

Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd sy'n bodoli eisoes yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn pan fo hynny'n briodol.

Pan ofynnir i ni wneud hynny, byddwn yn adrodd am ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Ein targed yw sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â nodau ac amcanion y cynllun hwn cyn pen pedair blynedd ohono yn dod i rym. Byddwn yn defnyddio gweithdrefn hunanasesu, y cytunir arni gyda'r Bwrdd, er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y targed hwn.

Byddwn yn cytuno ar fecanwaith gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fonitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn. Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd sy'n bodoli eisoes yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn pan fo hynny'n briodol. Byddwn yn anfon adroddiadau monitro at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn unol â'n cytundeb, gan amlinellu'r cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn.

Adolygu a diwygio'r cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn cyn pen pedair blynedd ohono yn dod i rym.

Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun hwn, o ganlyniad i newidiadau i'n swyddogaethau, neu'r amgylchiadau y byddwn yn cyflawni'r swyddogaethau hynny oddi tanynt, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb sicrhau cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyntaf.

Cwynion ac awgrymiadau er mwyn sicrhau gwelliant

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau er mwyn sicrhau gwelliant, at yr aelod uwch o staff sy'n gyfrifol am y cynllun, sef:

Andrew Day
Rheolwr Cynhyrchion Busnes
Student Loans Company Ltd
100 Bothwell St
Glasgow
G7 2JD

Ffôn 0141 243 3375

Neu mewn neges e-bost at: andrew.day@slc.co.uk.

Byddwn yn cydweithredu gyda'r Bwrdd er mwyn datrys unrhyw gwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg.

Gweithred	Dyddiad Cwblhau
1. Gohebu dros y ffôn Sefydlu canolfan galw yng Nghymru i gwsmeriaid CMC	Erbyn lansiad y cynllun
2. Cyngor i staff Hysbysu staff am y cynllun iaith Gymraeg a sut bydd yn effeithio eu gwaith	Erbyn lansiad y cynllun
3. Adolygiad o'r cynllun iaith Gymraeg Cynnal adolygiad o'r gwasanaethau a effeithir gan y cynllun iaith Gymraeg, gan gynnwys yr elfennau ad-daliad a dewis iaith cwsmeriaid	I ddechrau mis 2009
4. Cyhoeddiadau a ffurflenni Cynnal adolygiad o gyhoeddiadau a ffurflenni i sicrhau bod pob dogfen i'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg	O fewn 3 mis i lansiad y cynllun. Yr elfennau ad-daliad i ddilyn fel canlyniad i'r adolygiad o'r cynllun iaith Gymraeg (gweler uchod)
5. Cyfrifoldeb am y cynllun Penodi uwch swyddog i fod yn gyfrifol am y cynllun	Lansiad y cynllun
6. Cyhoedduswydd i'r cynllun Rhoi cyhoedduswydd i'r cynllun ar wefan CMC ac ar unrhyw ddeunydd cyhoedduswydd perthnasol	O fewn 2 fis i lansiad y cynllun